Cytûn ar waith 2017

Adroddiad ar ein gweithgareddau yn ystod 2016

Mae Cytûn wedi mwynhau blwyddyn brysur yn ystod 2016. Bu'n flwyddyn o weithgarwch, myfyrdod a gweddi yn canolbwyntio ar geisio dod â Christnogion at ei gilydd i ddathlu'r undeb hwnnw sy'n rhodd Crist i'r Eglwys.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi yn ystod yr Adfent 2016, ac mae'n cynnig dathlu a myfyrio ar flwyddyn brysur arall yn gwasanaethu ein sefydliadau a'n heglwysi sy'n aelodau. Mae gwaith staff Cytûn yn cael ei ffurfio drwy lunio cynllun gwaith blynyddol. Bron yn ddieithriad, mae'r gwaith hwnnw y cytunwyd gan yr eglwysi, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cael ei gyflwyno yn ei gyfanrwydd a'i gyflawni o fewn y gyllideb. Mae Cytûn bob amser yn ceisio ymateb i geisiadau oddi wrth yr eglwysi wrth i amgylchiadau a blaenoriaethau newid. Mae hynny wedi rhoi i offeryn eciwmenaidd cenedlaethol Cymru y cyflymder i weithredu sydd wedi bod o fudd mawr i eglwysi unigol a'r teulu Cristnogol ehangach.

Gwirfoddolwyr y stondin 'Cytûn: Eglwysi Ynghyd' yn y Sioe, Llanelwedd. Gorffennaf 2016

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn eithriadol, mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Mae Cytûn wedi ceisio helpu'r eglwysi i ymateb gyda'i gilydd i ddigwyddiadau fel cynnal Etholiad Cyffredinol Cymru, refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a chyhoeddi drafft newydd Bil Cymru.

Cofio Gwynn ap Gwilym yn yr Eisteddfod

Mae galluogi'r eglwysi i ymateb yn briodol i ddyfodiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Gymru wedi bod yn flaenoriaeth nodedig. Mae Cytûn hefyd wedi cadw ffocws parhaus yn y maes cyhoeddus ar heriau hirdymor ym mywyd cyhoeddus Cymru, gan gynnwys datblygu economaidd, addysg, iechyd, bywyd gwledig, cydlyniad cymdeithasol a materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Parhawyd i gynnal y cyswllt gyda sefydliadau allweddol fel Ymddiriedolaeth Trussell. Yn aml, gofynnir i staff Cytûn fod yn siaradwyr allweddol mewn digwyddiadau, fel Diwrnod i Ffwrdd staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd a gynhaliwyd ym Mhwllheli ym mis Gorffennaf.

Clip fideo 'Tai a Thlodi' o wefan Cytûn, un o'r fideos a'r adnoddau a gynhyrchwyd ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru

Yn ei holl weithgareddau, mae Cytûn yn ceisio bod yn offeryn tystiolaeth i'r ffydd Gristnogol. Daliwyd ati i roi cymorth i grwpiau lleol yn eu gwaith. Chwaraeodd Cytûn ei ran wrth helpu'r genedl Gymreig ddathlu digwyddiadau pwysig gyda gweithgareddau proffil uchel o addoli a thystiolaethu, gan gynnwys cymryd rhan yn y gwylnosau ar risiau'r Senedd ar adegau fel y bomio ym Mharis a llofruddiaeth Jo Cox AS. Mae Cytûn hefyd wedi dod â'r eglwysi at ei gilydd mewn digwyddiadau cenedlaethol a gwyliau er mwyn tystiolaethu a chael rhannu cymdeithas ac addoli.

Mae Cytûn hefyd wedi ceisio sicrhau bod gweithgareddau, blaenoriaethau a safbwyntiau Cristnogol Cymreig wedi cael eu rhannu gyda'r teulu Cristnogol ehangach ledled Prydain ac Iwerddon a thu hwnt ymhlith yr eglwysi Ewropeaidd. Mae'n wych fod eglwysi mwy newydd o leiafrifoedd ethnig yn dymuno bod yn aelodau o Cytûn.

Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb ac yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n ymwneud â gwaith Cytûn a chyda'n partneriaid mewn bywyd cyhoeddus. Rydym yn dathlu ac yn diolch ein bod yn gallu gwasanaethu Duw yng nghyd-destun y genedl Gymreig a bod yn effeithiol i Grist mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Gofynnir am weddïau dros aelodau Bwrdd Cytûn a thîm y staff. Mae gwaith yr elusen yn cael ei gyflwyno gan dîm bach o ddau aelod staff amser llawn a thri chydweithiwr rhan-amser - un yn cael ei gefnogi gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Addoli, Tystio a Chenhadu

Ers dyfodiad datganoli yng Nghymru, mae Cytûn wedi ceisio helpu cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector (gwirfoddol) i gynnal gweithgareddau proffil uchel o addoliad a myfyrdod ysbrydol. Gan weithio gyda'r awdurdodau yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a chydweithwyr ar Fwrdd Cymru'n cofio (Rhaglen Canmlwyddiant Rhyfel Byd Cyntaf Llywodraeth Cymru), cynigiwyd cymorth a chyngor yn ymwneud â digwyddiad yr haf hwn i goffáu Brwydr y Somme. Rydym hefyd wedi cefnogi rhai o'n heglwysi a oedd yn rhan o fenter Cymru dros Heddwch i gofio gwrthwynebwyr cydwybodol Cristnogol ac eraill fu'n wynebu cwestiynau moesol dwfn oherwydd y rhyfel. Buom yn gwasanaethu ymrwymiad ein heglwysi i heddwch wrth gynnal gwasanaethau hefyd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol i gofio am fomio Hiroshima a Nagasaki.

Darparodd Cytûn un o'r prif siaradwyr ar gyfer cynhadledd ar ysbrydolrwydd Celtaidd *Praxis,* yn Eglwys Gadeiriol Southwark ym mis Tachwedd, gan ganolbwyntio ar sut y gallai gwersi o draddodiadau hynafol gael eu cymhwyso i sefyllfa gyfoes. Yn y digwyddiad hwn, ac mewn digwyddiadau eraill, bu Cytûn yn cynorthwyo cymunedau i nodi bod hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers trychineb Aberfan yn 1966. Mae Cytûn yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Addysg Gristnogol Caerdydd i Oedolion (CACEC), ac roedd yn falch o allu cefnogi eu darlith am y cymorth dilynol a ddarparwyd gan yr eglwysi ledled y Cymoedd yn dilyn y trychineb. Cynhaliwyd y ddarlith ddydd Gwener 21 Hydref.

Cefnogi Cyrff Cysylltiedig

Drwy Cytûn a chyswllt uniongyrchol, mae eglwysi Cymru yn cefnogi nifer cynyddol o gyrff cysylltiedig.

- Croesawyd cyfeillion o Gymdeithas y Beibl, Cyngor Ysgolion Sul Cymru, a Chymorth Cristnogol ym mhabell Cytûn mewn digwyddiadau cenedlaethol.
- Cymrodd staff ran mewn digwyddiadau proffil uchel megis lansio Housing Justice Cymru yn y Senedd ym mis Medi.
- Hwylusodd Cytûn gyfarfod rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, a chynrychiolwyr o Cymorth Cristnogol, ARocha UK a CHASE (Christian Action for a Sustainable Environment). Mae cymorth parhaus yn cael ei ddarparu i ARocha UK wrth iddyn nhw ddatblygu eu rhaglen gyffrous, EcoChurch, yng Nghymru.

Rhoddwyd cefnogaeth staff i gadeirio un o'r sesiynau Cynnal a gynhaliwyd ym mis Hydref yng Nghaerfyrddin yn eu cynhadledd am ddibyniaeth 'Yr Angen i Ffoi o'r Hunan', cefnogir hefyd cynulleidfaoedd ethnig llai wrth iddyn nhw geisio ymgartrefu yng Nghymru.



➔ Parch Gethin Rhys yn arwain mewn gweddi wrth lansio Housing Justice Cymru, 29 Medi 2016

↘ Cyfarfod a Chomisiynydd Chenedlaethau'r Dyfodol Sophie Howe, 12 Medi 2016

Cefnogi Grwpiau Lleol

Mae Cytûn wedi parhau mewn cysylltiad â dros 70 o grwpiau lleol sy'n annog eciwmeniaeth achlysurol, prosiectau penodol a Phartneriaethau Ecwmenaidd Lleol ffurfiol a Gofalaethau Cymunedol. Mae eciwmeniaeth leol bellach yn llawer mwy amrywiol a pherthynol o ran ei natur na phan sefydlwyd grwpiau lleol Cytûn yn wreiddiol.

Cynigir cefnogaeth am faterion cyfansoddiadol a gweinyddol. Mae defnydd wedi cael ei wneud hefyd o adnoddau a ddarperir gan offerynnau cenedlaethol eraill ym Mhrydain ac Iwerddon. Trwy gylchlythyrau a chyswllt uniongyrchol, rhoddwyd cefnogaeth i grwpiau lleol yn eu cenhadaeth drwy ddarparu siaradwyr, yswiriant a chyhoeddusrwydd drwy gyfryngau cymdeithasol a chyfnodolion enwadol.

Drwy bregethu achlysurol a digwyddiadau eciwmenaidd penodol mae staff Cytûn wedi cefnogi cynulleidfaoedd lleol o wahanol enwadau ledled Cymru.

Croeso i Gymru

Mae Croeso i Gymru yn gwrs hyfforddi preswyl, a gynhelir gan Cytûn, i Weinidogion yr Efengyl sy'n trosglwyddo i Gymru o rannau eraill o'r DU neu ymhellach i ffwrdd. Cynhaliwyd y cwrs eleni rhwng y 5ed a'r 7fed o Hydref, gydag eitemau yn cynnwys cipolwg i gyd-destun eciwmenaidd a gwleidyddol Cymru, cyd-destun diwylliannol cyfoes a hanesyddol Cymru, lle'r iaith Gymraeg ymysg materion crefyddol eraill a gwaith Rhyng-Ffydd yng Nghymru. Bydd y cwrs nesaf yn cael ei gynnal rhwng y 4ydd a'r 6ed mis Hydref 2017. Mae ffurflen gais i gadw lle ar y cwrs ar gael ar wefan Cytûn.

"Roedd y cwrs yn dda iawn ac wedi ei baratoi yn drylwyr."

"...Gwaith gwych! Rwyf yn ddiolchgar iawn am gwrs ysblennydd. Cyflwyniad ardderchog i Gymru!"

"Roedd y cwrs wedi ei drefnu'n dda, rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl ddarpariaeth cafo ni. Wedi mwynhau aros yng Nghanolfan Mihangel Sant a siarad gyda'r staff a'r myfyrwyr."

"Cwrdd â phobl eraill ar y cwrs, cymdeithas a chyfeillgarwch - gwaith trefnu da iawn"

Y Cyd-destun Eciwmenaidd Ehangach

Cynhelir cyswllt rheolaidd gyda chydweithwyr yn yr offerynnau eciwmenaidd cenedlaethol yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, yn ogystal â chydag Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon. Mae'r offerynnau'n gweithio'n agos â'i gilydd wrth gynhyrchu deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, Sul Cyfiawnder Hiliol, ac adnoddau litwrgïaidd achlysurol eraill.

Mae ysgrifenyddion cyffredinol cynghorau ecwmenaidd cenedlaethol Ewrop yn cyfarfod bob blwyddyn i drafod materion sylweddol ein hoes a sut mae hyn yn effeithio ar fywyd yr eglwys. Cynhaliwyd y cydgynulliad eleni yn Lisbon a thrafodwyd effaith seciwlariaeth, mewnfudo rhyngwladol a'r newidiadau a ddaeth i fod mewn deialog ryng-grefyddol gyfoes.

Cytunwyd y byddai cyfarfod Mehefin 2017 yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd. Y gobaith yw y bydd Cytûn, gan weithio mewn partneriaeth ag Eglwys Gadeiriol Gatholig Dewi Sant yng Nghaerdydd, yn gallu cynorthwyo cynulleidfaoedd yng Nghymru sy'n siarad Almaeneg i nodi 500 mlynedd ers dechrau Diwygiad Protestannaidd Luther yn Wittenberg yn 1517. Bydd hwn yn un o brif brosiectau Cytûn ar gyfer 2017.

Cefnogi Caplaniaethau

Un o amcanion allweddol Cytûn drwy gydol 2016 fu cefnogi caplaniaethau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Rhoddwyd cymorth ym mis Chwefror i Gynhadledd Heddlu Dyfed Powys ar Ffydd a Gwasanaethu ein Cymunedau, a gynhaliwyd y tu allan i Gaerfyrddin. Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i gaplaniaethau mewn prifysgolion yng Nghymru yn eu gwaith rhyng-ffydd, drwy gynnal sgyrsiau yn ymwneud â ffydd a chyfeiriadedd rhywiol, a thrwy ymgysylltu â'r Llywodraeth ynghylch sensitifrwydd polisïau gwrth-eithafiaeth. Mae Cytûn yn cefnogi gwaith y caplaniaid gwledig sydd wedi'i leoli ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth agos â'r caplaniaid yn ystod pedwar diwrnod y Sioe fawr.

Pobl a Ddadleolwyd

Ar hyn o bryd mae Cytûn, drwy ei Brif Weithredwr, yn darparu'r Cadeirydd ar gyfer Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, a noddir gan y Swyddfa Gartref, ac mae hefyd yn aelod o Dasglu Adsefydlu Syria Llywodraeth Cymru. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod llais cymunedau ffydd yn cael ei glywed gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn y maes hwn. Drwy gydol 2016 mae adborth wedi cael ei gynnig i strwythurau eglwysig a phwyllgorau a chynghorau sydd â diddordeb, ac mae cymorth wedi cael ei gynnig i eglwysi lleol sy'n ceisio cynnig croeso i ffoaduriaid yn eu hardal.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn strategol. Er enghraifft, er bod y wasg a'r cyfryngau'n canolbwyntio ar Raglen Ailsefydlu Syria, mae'r angen dynol brys go iawn yn parhau i ganolbwyntio ar y dyfodiaid digymell yn yr ardaloedd gwasgaru traddodiadol sef Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam. Mae Cytûn yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol gan gynnig cyngor a phrofiad sylweddol o weithio yn y maes hwn. Mae offeryn eciwmenaidd cenedlaethol Cymru wedi bod yn arbennig o ystyriol ynghylch anghenion y Cristnogion a erlidiwyd sy'n chwilio am loches yng Nghymru. Yn hyn o beth, mae gwaith Cytûn yn aml yn ymarferol ac yn cynnig rhywfaint o gefnogaeth, lle bo modd, i unigolion bregus.

Drwy waith ei Banel Dyngarol mae cefnogaeth wedi ei rhoi i Urdd Gobaith Cymru, wrth i'r mudiad ganolbwyntio ar sefyllfa'r ffoaduriaid drwy ei neges ewyllys da, a'r gwasanaethau a deunydd litwrgaidd a ddarperir ar gyfer Sul yr Urdd. Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau.

Cefnogi ceiswyr lloches a phlant sydd ar eu pen eu hunain
(Tynnwyd y ffotograff gan Aled Edwards,
Prif Weithredwr Cytûn yn Idomeni, Gwlad Groeg)

Gwaith Rhyng-Ffydd

Mae Cytûn yn parhau i ddarparu cymorth gweinyddol i Gyngor Rhyng-Ffydd Cymru. Mae gwaith y Cyngor yn berthynol o ran natur yn adeiladu ar ysbryd o barch, cyfeillgarwch a chydweithrediad. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn addoldai ein gilydd - yn enwedig yn ystod yr Wythnos Rhyng-Ffydd ym mis Tachwedd.

Cytûn sy'n rheoli gwefan Rhyng-Ffydd Cymru,
nodwch yr enw parth newydd: www.interfaith-wales.org.uk

Mae llawer o waith y Cyngor yn ymgysylltu ag asiantaethau allanol fel Comisiynydd y Gymraeg, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, a'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Chwaraeodd y Cyngor ran hanfodol hefyd i sefydlu gwasanaeth caplaniaeth ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae llawer o waith y Cyngor Rhyng-Ffydd yn canolbwyntio ar Gaerdydd, ond nid yno'n unig. Gofynnwyd ym mis Hydref i staff Cytûn helpu Henaduriaeth y Gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ei hymgysylltiad â chymunedau ffydd eraill. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhyng-ffydd eraill yng Ngorllewin Cymru yn arbennig.

Bydd y prif gymunedau ffydd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru yn y Fforwm Cymunedau Ffydd, ac mae Cytûn yn darparu cyswllt â chymunedau ffydd i drefnu'r cyfarfodydd hyn ac i drafod materion sy'n codi rhwng cyfarfodydd. Mae Cytûn yn cydlynu cynrychiolaeth Crefydd ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sy'n galluogi'r trydydd sector (gwirfoddol) cyfan yng Nghymru i gyfarfod yn rheolaidd gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae Cytûn wedi cyfrannu tuag at waith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar grefydd a'r gweithle. Mae mewnbwn strategol wedi'i wneud hefyd drwy aelodaeth o Fforwm Hil Llywodraeth Cymru, Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Fforwm Cymunedau Ffydd, a Thasglu Adsefydlu Syria. Bydd Cytûn yn ymgynghorai rheolaidd pan fydd cyrff cyhoeddus yn ystyried polisïau ar gyfer cydraddoldeb yn y gweithle, ac rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod amrywiaeth grefyddol yn cael ei hwyluso.

Rhoddwyd cymorth ynglŷn â chofio am lofruddiaethau Srebrenica, yng Nghaerdydd ac yn Llundain, yn arbennig yn Abaty Westminster, gan alluogi'r gymuned rhyng-ffydd yng Nghymru i fyfyrio ar y trychineb ac addoli'n briodol.

Ym mis Tachwedd, gofynnwyd i Cytûn, gyda rhanddeiliaid eraill, gynorthwyo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru i ymateb i Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol (UPR) a sefydlwyd yn 2006. Mae'n broses lle mae Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (corff o 47 o Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys y DU) yn edrych ar gofnodion hawliau dynol pob Aelod-wladwriaeth y Cenhedloedd Unedig oddeutu bob pedair blynedd.

Mae gan Cytûn Rwydwaith Cyfiawnder Hil sefydlog sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod gofal pobl sydd wedi eu dadleoli, cydlyniad cymdeithasol, troseddau casineb, ac anghenion cynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig Cymru. Mae cefnogaeth yn cael ei rhoi bob amser i ddrama flynyddol Gŵyl y Geni y lleiafrifoedd ethnig a gynhelir dan ofal galluogydd yr Eglwys Fethodistaidd, sef Irfan John.

Y Prif Rabbi Ephraim Mirvis, Parch Aled Edwards, Lesley Griffiths AM a Saleem Kidwai yng nghinio blynyddol Cyngor Mwslemiaid Cymru

Digwyddiadau'r Haf

BEIBL BYW

Bu yn wythnos brysur, arbennig a chofiadwy iawn yn Stondin yr Ysgolion Sul ar faes Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint. Roedd y gweithgareddau arferol yn cael eu cynnal ar y stondin, ond yn ogystal â hyn roedd digwyddiad arbennig yn cael ei gynnal pob dydd. Er mwyn dathlu "Blwyddyn y Beibl Byw" bu criw o wirfoddolwyr yn cynnal gweithgaredd "Helfa Drysor" arbennig iawn yn ddyddiol. Er mwyn cwblhau'r helfa, roedd unigolion yn crwydro'r maes wedi gwisgo fel cymeriad o un o storïau'r Beibl - ac yn rhoi sticer ar gerdyn bydd y plant a'r pobl ifanc wedi'i cael o'r stondin.

O ben bore Llun tan bnawn Gwener bu plant a phobl ifanc yn crwydro'r maes yn chwilio am y cymeriad Beiblaidd i gael eu stori gan nhw a sticer!

Llongyfarchiadau a diolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr a wnaeth wneud Stondin yr Ysgolion Sul yn llwyddiant eto eleni. Bu'n braf cydweithio, nid yn unig gyda'r eglwysi lleol, ond rhannu yn y treniadau gyda Chymorth Cristnogol a Scripture union. Diolch hefyd am oedfa fendithiol a chofiadwy i roi cychwyn ar yr wythnos.

Roedd hefyd amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal dros wythnos y Sioe yn Llanelwedd ac yn Eisteddfod Mynwy a'r Cyffiniau. Daeth pobl yn eu cannoedd unwaith eto i addoli, i wrando ar eitemau difyr a mwynhau cwmni a chroeso cynnes oedd ym mhabell yr eglwysi yn y ddwy wyl.

Eto yn yr Eisteddfod, roedd bwrdd gwerthu llyfrau ac adnoddau cristnogol gan Gyngor Ysgolion Sul a chynrychiolir Cymdeithas y Beibl, Cymorth Cristnogol a CAFOD o fewn y babell hefyd ynghyd a holl enwadau Cytûn.

Roedd digwyddiadau i blant a phobl ifanc eleni yn y Sioe yng ngofal Judy Harris o'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, ac yn yr Eisteddfod, roedd y Parch Catherine Haynes o Esgobaeth Mynnwy ac aelodau o adran leol Byddin yr Iahawdwriaeth yno i gynnig croeso a gweithgareddau i'r criw iau.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i eglwysi Sir Fynwy a'r cyffiniau, eleni eto, am eu brwdfrydedd, eu cydweithrediad ac yn bennaf am fod yn fodlon i ymgymryd â'r gwaith caled yn ystod yr wythnos ym mhrysurdeb y babell.

Roedd digwyddiadau'r haf 2016 yn gofiadwy a braf iawn, ac yn a gobeithio cawn ail-greu'r cynnwrf a gweithgareddau tebyg i hyn eto yn ystod 2017.

Brexit

Arweiniodd canlyniad y refferendwm ym mis Mehefin, ynghylch aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, i nifer o'n heglwysi ofyn am ymateb eciwmenaidd. Mae Cytûn wedi darparu cefnogaeth weinyddol ar gyfer y gwaith hwn, ac mae cysylltiadau rhagorol wedi eu sefydlu gyda'r cyfryngau Cymraeg a chyda seneddwyr yng Nghymru a San Steffan sy'n ceisio llais Cristnogol yng nghanol y ddadl swnllyd sydd wedi dilyn.

Mae Gweithgor Cytûn ar Gymru ac Ewrop wedi gwneud cyflwyniadau ffurfiol ar ran ein heglwysi ar ganlyniadau moesol, dyngarol ac ymarferol Brexit, a'u cyflwyno i :

- Gydbwyllgor y ddau Dŷ Seneddol ar Hawliau Dynol goo.gl/DVC2NZ
- Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin goo.gl/cNq9Wq
- Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru goo.gl/JGOnWH

Yn ystod 2017 mae'r Gweithgor yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn, gyda chefnogaeth arbenigedd ein heglwysi a'n cyrff cysylltiedig, fel y bydd safbwyntiau Cristnogol a moesol Cymreig yn parhau i gyfrannu at y ddadl hollbwysig.

Y Wasg a'r Cyfryngau

Mae gan Cytûn ei gyfrif Twitter @CytunNew yn darparu diweddariadau rheolaidd ac ymdeimlad o'r hyn y mae'r cyrff sy'n aelodau yn ei wneud. Yn flynyddol mae staff Cytûn yn awr yn gwneud tua 40-50 o gyfweliadau â'r cyfryngau ar ystod o faterion yn ymwneud â ffydd. Yn wythnosol bron mae newyddiadurwyr yn cael eu cyfeirio at y ffynonellau priodol o fewn yr eglwysi neu gyrff cysylltiedig ar gyfer sylwadau ar faterion cyhoeddus.

Mae Cytûn yn aelod sefydlog o Banel Amrywiaeth ITV Cymru a gwnaeth ymateb manwl i'r ymgynghoriadau ar adnewyddu Siarter y BBC. Roedd dylanwad ymateb Cytûn yn weladwy ym mhenderfyniadau terfynol Llywodraeth y D.U. ar adnewyddu'r siarter.

Rhoddwyd cymorth ym mis Tachwedd i'r gynhadledd, *When Religion Makes the News,* yng Nghaerdydd, gyda golwg ar wella dealltwriaeth newyddiadurwyr o sut mae cymunedau ffydd yn gweithio. Roedd y gynhadledd hefyd yn galluogi arweinwyr ffydd i gael gwell dealltwriaeth o sut mae'r wasg a'r cyfryngau'n gweithio.

➔ Grŵp Laser yn y Senedd, Mehefin 2016

Datganoli yng Nghymru

Roedd 2016 yn flwyddyn etholiad yng Nghymru, a gweithiodd Cytûn gyda'n heglwysi i gynhyrchu cyfres o ddeunyddiau, gan gynnwys fideos ar faterion yn y bywyd Cymreig gwledig a threfol, papurau briffio ar ystod o bynciau, a chanllawiau ymarferol ar gyfer grwpiau Cytûn lleol a oedd yn cynnal hystingau gydag ymgeiswyr. Rydym yn gwybod bod y deunyddiau hyn wedi eu defnyddio mewn grwpiau addoli a thrafod yn y ddwy iaith ar draws Cymru, a chawsant eu canmol gan eglwysi a gwleidyddion fel ei gilydd.

Mae Cytûn wedi adeiladu perthynas gyda Llywodraeth newydd Cymru ac Aelodau Cynulliad sydd newydd eu hethol, a chyda sefydliadau partner ar draws y bywyd Cymreig. Mae hyn yn ein galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth a'r gwrthbleidiau ar bob agwedd ar fywyd Cymreig. Ymysg y meysydd y buom yn gweithio arnyn nhw yn 2016 oedd:

- Datblygiad Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'i ddogfennau cysylltiedig. Darparodd Cytûn gyngor arbenigol i swyddogion eiddo enwadol ar y ddeddfwriaeth newydd, ac i Lywodraeth Cymru ar statws cyfreithiol neilltuol eglwysi yng Nghymru.
- Y cwricwlwm newydd sy'n datblygu ar gyfer ysgolion Cymru, gan gynnwys y lle o'i fewn i addysg grefyddol a datblygiad ysbrydol.

Wrth i'r cylchlythyr hwn fynd i'r wasg, clywsom y newydd trist am farw'r Parchedig Gethin Abraham-Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn rhwng 1998 a 2006.

Cyn hynny bu'n weinidog yn eglwysi'r Bedyddwyr yn Coventry, Sutton Coldfield a Sutton, Surrey, yn swyddog ecwmenaidd i eglwysi Milton Keynes, ac yna i'r Eglwys yng Nghymru, ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru (Enfys).

Meddai Prif Weithredwr presennol Cytûn, y Parch. Ganon Aled Edwards.

"Roedd wedi llwyddo mewn ffordd cwbl ryfeddol i gael cymunedau ffydd Cymru at ei gilydd - cymunedau Hindŵaidd, Mwslimaidd, Iddewig ac eraill - i ddod i mewn i berthynas ac i fod yn gyfeillion i'w gilydd - a bod hwnnw wedi ei wreiddio yng nghyd-destun gwleidyddol newydd datganoli. Mae'n debyg mai doniau ac athrylith Gethin oedd yn gyfrifol am lwyddiant mawr hynny."

Fe barhaodd Gethin i fod yn weithgar yn y maes ecwmenaidd a rhyng-ffydd, a chyhoeddi sawl llyfr ac erthygl, hyd ei farwolaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig Denise, eu plant Owain ac Ellen a gweddill y teulu.

Caiff Cytûn ei gynrychioli ar Grŵp Rhanddeiliaid Strategol y Cwricwlwm, ac mae wedi cymryd rhan weithredol mewn sgyrsiau eraill ynghylch addysg cyn-ysgol, addysg ysgol, addysg bellach ac uwch. Mae'r eglwysi Cymreig bob amser wedi chwarae rhan bwysig wrth lunio addysg yn y wlad hon, ac mae'r rôl yn parhau.

- Tua diwedd y flwyddyn fe wnaeth grwpiau Cytûn, ac eglwysi lleol unigol sydd wedi bod yn rhan o brosiectau a ariennir gan Cymunedau yn Gyntaf, ymateb gyda phryder i'r cyhoeddiad bod y Llywodraeth a'i bryd ar roi diwedd ar y rhaglen ym mis Mawrth 2017, ac mae Cytûn wedi gweithio â'r grwpiau hyn er mwyn ceisio dylanwadu ar y canlyniad. Rydym yn falch o gefnogi, yn y modd hwn, brosiectau sy'n darparu cymorth Cristnogol ymarferol i lawer o'r bobl dlotaf a mwyaf bregus yng Nghymru.
- Gofynnodd Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru, seneddwyr unigol o bob plaid, a Chymdeithas Ddysgedig Cymru, am syniadau Cytûn yn ymwneud â drafft Bil Cymru a gyhoeddwyd ac a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae Cytûn yn cyhoeddi Bwletinau Polisi rheolaidd sydd â chylchrediad o dros 1000 ar gyfer pob rhifyn. Mae'r tanysgrifiad am ddim. Anfonwch e-bost at gethin@cytun.cymru. Mae'r Bwletinau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Cytûn hefyd.

Mae Cytûn yn galw Grŵp Laser o swyddogion eglwys a chymdeithas, sy'n dwyn ynghyd enwadau ac asiantaethau Cristnogol o deulu Cytûn, ynghyd â'n partneriaid yn y Gynghrair Efengylaidd. Mae'r Grŵp yn galluogi eglwysi Cristnogol i gydlynu eu gwaith a dysgu oddi wrth ei gilydd, hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n cytuno ar bob mater. Mae Cytûn yn aelod o'r Grŵp Radar tebyg ar lefel y D.U.

Gan adeiladu ar ymgysylltiad hirsefydlog â sefydliadau datganoledig Cymru, yn enwedig o ran y gyfraith, gofynnodd Cynhadledd Ysgolion Cyfraith Llywodraeth Cymru ar Brif Weithredwr Cytûn i fod yn un o'r prif siaradwyr yn ei digwyddiad hyfforddi ym mis Mawrth ar gyfer cyfreithwyr dan hyfforddiant.

Mae Cytûn yn aelod gweithgar o Wasanaeth Cynghori Deddfwriaeth yr Eglwysi, ac yn cael ei gydnabod i fod yn un o'r sefydliadau cenedlaethol mwyaf profiadol a gwybodus sy'n ymwneud â datblygu datganoli yng Nghymru.

Gwaith Rhyngwladol

Mae gan rai eglwysi Cymreig bwyllgorau ar gyfer materion rhyngwladol a byd-eang. Mae Cytûn wedi cefnogi eu gwaith. Cynigiwyd cyngor yn ymwneud â chaffael fisas ar gyfer gweinidogion, myfyrwyr a chorau eglwys rhyngwladol sy'n ymweld â'r wlad.

Tra ein bod yn cadw cyswllt wedi'i fwynhau gyda nifer o asiantaethau cymorth rhyngwladol, mae Cytûn yn gweithio'n bennaf yn y maes rhyngwladol drwy Cymorth Cristnogol, gan gefnogi ei phresenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol, bod yn aelodau gweithgar o Bwyllgor Cymru, a cheisio cynnig cymorth i staff gyda'u gwaith ymgyrchu. Rhoddwyd cefnogaeth i'r daith gerdded hir yng Nghymru, o Fethlehem i'r Aifft, ym mis Rhagfyr, gyda Phrif Weithredwr Cytûn yn ymuno â staff Cymorth Cristnogol a gwirfoddolwyr.

Cyngor Eglwysi Rhyddion a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol

Mae staff Cytûn yn parhau i gefnogi gwaith Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru trwy ei waith polisi cyhoeddus a thrwy gynnig rhywfaint o gymorth gweinyddol.

Caiff cymorth gweinyddol ei gynnig hefyd i Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Gweithiodd y Comisiwn yn gadarnhaol wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer y ffordd ymlaen. Mae'r Grŵp Ffydd a Threfn yn chwarae rhan arwyddocaol yn hyn i gysoni'r modelau o ddiaconiaeth a gweinidogaeth driphlyg o fewn pob enwad sy'n bartneriaid. Y gobaith a'r bwriad yw galluogi mwy o ymgyfnewid gweinidogaeth yn ein cymunedau.

Roedd y Comisiwn yn ffodus o gael y Barch Ddr Susan Durber, Cadeirydd Comisiwn Cyngor Eglwysi'r Byd ar Ffydd a Threfn i annerch cyfarfod yn ddiweddar. Rhanodd Susan ei doethineb, ei mewnwelediad a'i hanogaeth ar gyfer y daith. Gwahoddwyd cyfeillion i ymuno â'r cyfarfod ar gyfer cyflwyniad Susan ac roedd hyn yn cynnwys nifer o gyn-swyddogion y Comisiwn gan gynnwys y Parch. Gethin Abraham-Williams a fu farw ychydig ddiwrnodau wedyn.

➔ Y Parch Ddr Siôn Aled Owen, Parch Gethin Abraham-Williams, Parch Gethin Rhys a'r Parch Ddr Noel Davies yng nghyfarfod y Comisiwn, Hydref 2016.

Oedfa'r Eisteddfod
Bore Sul, Awst 6

Bydd tocynnau am ddim i'r oedfa ar gael i'w harchebu o wefan Cytûn ar sail 'y cyntaf i'r felin' o fis Mawrth y 1af. Oni bai bydd yr holl docynnau yn cael eu harchebu yn sydyn, y dyddiad cau am geisiadau yw Mai 31 2017.

Mae dolen i archebu adnoddau Wythnos Weddi am Undod Cristnogol gan EYMI *(CTBI)* i'w gael ar wefan Cytûn.